# Adroddiad Blynyddol 2021-22 Clinig y Gyfraith Abertawe

Mae hi wedi bod yn flwyddyn academaidd brysur a llwyddiannus i Glinig y Gyfraith Abertawe, sydd wedi adeiladu ar waith a wnaed eisoes a chyflwyno nifer o gyfleoedd newydd i fyfyrwyr yn **Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton.**

Mae'r pumed adroddiad blynyddol hwn yn asesu gweithgareddau'r Clinig rhwng mis Gorffennaf 2021 a mis Mehefin 2022.

Yn ystod y cyfnod sy'n cael ei adolygu, dechreuon ni weld rhai o'n cleientiaid wyneb yn wyneb eto ar ôl i'r cyfyngiadau a bennwyd oherwydd pandemig Covid gael eu llacio'n rhannol. Serch hynny, nid oedd ein swyddfeydd yn adeilad y Techniwm Digidol ar Gampws Parc Singleton yn hollol weithredol eto. Fodd bynnag, llwyddwyd i ddarparu gwasanaethau rhithwir drwy blatfform cynadleddau fideo Zoom heb lawer o broblemau technegol.

Mae'r Clinig yn gyfrifol am gyflwyno dau fodiwl sy'n rhan o'r radd israddedig LLB yn y Gyfraith - LAA366/7 *Addysg Gyfreithiol Glinigol* ac LAA364/5 *Camweinyddiad Cyfiawnder.* Mae'r ddau fodiwl yn werth 20 credyd a chânt eu cynnig yn ystod Blociau Addysgu Un a Dau. Yn 2021/22, roedd 72 o fyfyrwyr wedi'u cofrestru ar y modiwlau hyn. Mae'r modiwl *Camweinyddiad Cyfiawnder* yn gweithio mewn partneriaeth â'r elusen Inside Justice, sy'n cyfeirio achosion at y Prosiect. Yn ogystal, cymerodd 71 o fyfyrwyr ran yn wirfoddol ac ar sail allgyrsiol yn ein prosiectau amrywiol, sy'n golygu bod cyfanswm o **143** o fyfyrwyr wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Clinig yn ystod 2021/22.
Rhoddodd y Clinig gyngor ar **91** o achosion gwahanol.

Gweithiodd y Clinig mewn partneriaeth â phum cwmni cyfreithiol lleol, sydd wedi darparu 10 o gyfreithwyr a chyfreithwyr dan hyfforddiant gwirfoddol sy'n gwirfoddoli yn yr Apwyntiadau a Chymorthfeydd Cyfreithiol 30 munud.

Rydym yn ddiolchgar iawn i'r cwmnïau canlynol a'u cyfreithwyr gwirfoddol am eu cymorth:

- DJM, Cyfreithwyr
- DLA Piper, Cyfreithwyr
- Duncan Lewis, Cyfreithwyr
- Eversheds Sutherlands, Cyfreithwyr
- Graham Evans and Partners, Cyfreithwyr
- Peter Lynn and Partners, Cyfreithwyr
- Smith Llewelyn Partnership

Yn ogystal, meithrinodd y Clinig bartneriaethau newydd ac roeddem yn ddiolchgar iawn am y cymorth a roddwyd i ni gan Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg, Age Cymru, Valla a Chymorth Cymunedol Cydlynol Cymdeithas y Plant.

Mae'r Clinig wedi ennill nod barcud y Safon Ansawdd Cyngor (AQS) ac mae'n un o bedwar clinig cyfreithiol yn unig mewn prifysgolion yn y DU sydd wedi ennill y statws hwn.

Cafodd y Clinig ei achredu gan Swyddfa'r Comisiynydd Gwasanaethau Mewnfudo i ddarparu cyngor ar fewnfudo a lloches yn 2021, a chawsom ein hachosion mewnfudo cyntaf yn ystod cyfnod yr adolygiad.

Mae gweithgarwch myfyrwyr yn ystod 2021/22 yn cynnwys y canlynol:

- Sesiynau Cyngor o Bell (Myfyrwyr Gwirfoddol yn cysgodi apwyntiadau cyngor cychwynnol gyda chyfreithwyr);
- Apwyntiadau dan arweiniad Myfyrwyr Ymgynghorol (Myfyrwyr Ymgynghorol yn cwrdd â chleientiaid o bell);
- Y Prosiect Camweinyddiad Cyfiawnder
- Clinig yr Haf (Myfyrwyr Ymgynghorol sy’n gwirfoddoli i sicrhau bod ein gwasanaeth yn parhau i fod ar gael yn ystod gwyliau hir yr haf, drwy ddarparu clinigau rhithwir);
- Prosiect Ukraine Advice UK;
- Gwirfoddoli cydweithredol (Prosiect HOPE, Age Cymru; Prosiect Valla);
- Prosiect Cyfieithu Cymraeg;
- Prosiect Datblygu Taflen Ffeithiau;
- Diwrnod Byd-eang o Weithredu dros Gyfiawnder Hinsawdd;
- Bwrdd Myfyrwyr.

## Staffio

Yn ystod 2021/22, cafodd y Gyfadran ei hailstrwythuro. Mae Hannah Bussicott, a fu gynt yn Rheolwr Canolfan Gyfreithiol Prifysgol Abertawe, wedi cael ei phenodi'n Rheolwr Canolfan Gyfreithiol y Plant ac, ym mis Gorffennaf 2021, penodwyd Eve Haynes yn Rheolwr Clinig y Gyfraith Abertawe. Hoffem ddiolch i Hannah am yr holl gymorth mae wedi'i roi ac mae'n parhau i'w roi i'r Clinig.

Penodwyd Swyddog Prosiect, Charlotte Watkins, i ddatblygu ap cyfeirio (gweler yr adran Ymchwil a Datblygu isod) a dechreuodd hi yn ei swydd ar 27 Gorffennaf 2022.

Yr Athro Rich Owen yw Cyfarwyddwr Clinig y Gyfraith Abertawe o hyd.

## Gwobrau a Chydnabyddiaeth y Clinig

### *Gwobrau HEAR y Clinig*

Mae'r Adroddiad Cyrhaeddiad Addysg Uwch (HEAR) yn gofnod cynhwysfawr o ddysgu a chyflawniadau myfyriwr yn ystod ei amser ym Mhrifysgol Abertawe. Cafodd **Gwobr Cofnod Cyflawniad Addysg Uwch (HEAR) Clinig y Gyfraith Abertawe** ei dilysu yn 2019/20 ac roeddem yn gallu dyfarnu **pum gwobr Aur, naw gwobr Arian a chwe gwobr Efydd (cyfanswm o 20)** i fyfyrwyr ar ddiwedd blwyddyn academaidd 2021/22.

I ennill y Wobr Efydd, mae myfyrwyr yn gwirfoddoli am **20 awr** gyda'r Clinig (Mae'r ymrwymiad hwn yn cynnwys gwirfoddoli, hyfforddiant a myfyrdod byr am eu profiad). Mae'r rhai sy'n ennill y wobr Arian wedi cwblhau **30 awr** o wirfoddoli ac mae'r rhai sy'n ennill y wobr Aur wedi cwblhau **30 awr** o wirfoddoli ac wedi gwasanaethu fel aelodau o **Fwrdd Myfyrwyr y Clinig.**

Llongyfarchiadau enfawr i ...

Shannon Taylor, Atif Ismail, Alecia Spence, Taliesyn Kallstrom a Lorna Williamson am dderbyn y Wobr Aur.

Jeevan Mann, Amber Jenkins, Megan Lewis, Dana Savu, India Ford, Carlie Englefield, Ffion Jones, Minass Himmat ac Alexis Rudat am dderbyn y Wobr Arian.

Llongyfarchiadau hefyd i Ellie Sayce, Amber Wassal, Kelsey Elward, Molly Cameron, Mali Burrows a Rashmi Kungwani am dderbyn y Wobr Efydd.

***Gwobrau Myfyrwyr Pro Bono LawWorks a'r Twrnai Cyffredinol***

Roeddem wrth ein boddau pan gafodd Alicia Spence ei chynnwys ar y rhestr fer am Wobr Myfyriwr Pro Bono LawWorks a'r Twrnai Cyffredinol am y Cyfraniad Gorau gan Fyfyriwr Unigol ym mis Mai 2022.



*Alecia (yn y canol) gyda Rich Owen ac Eve Haynes yng Ngwobrau Pro Bono Myfyrwyr LawWorks a'r Twrnai Cyffredinol yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 4 Mai 2022.*


***Gwobr Prosiect Cynaliadwyedd***

Dyfarnodd Cymdeithas y Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol Wobr Prosiect Cynaliadwyedd i Rich Owen am waith sy'n darparu addysg uwch gynaliadwy yng nghyd-destun Cymru ac am archwilio'r berthynas rhwng holl Nodau Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

## Dadansoddiad o'r holl achosion fesul math o weithgarwch.

***Modiwlau Addysg Gyfreithiol Glinigol***

Cafodd myfyrwyr a oedd wedi'u cofrestru ar y Modiwl Addysg Gyfreithiol Glinigol eu hyfforddi fel Myfyrwyr Ymgynghorol a chawsant gyfle i gyfweld ag aelodau'r cyhoedd yr oedd angen cyngor cyfreithiol arnynt. Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau o bell drwy Zoom, ond cynhaliodd rhai myfyrwyr eu cyfweliadau, neu gwnaethant ymuno â chyfweliadau o gyfleusterau Clinig y Gyfraith yn y Techniwm Digidol.





Cynghorodd Myfyrwyr Ymgynghorol ar **34 o achosion cyfreithiol gwahanol** yn ystod tymhorau'r hydref a'r gwanwyn. Bu'r cyfweliadau wyneb yn wyneb yn ymdrin â'r agweddau ar y gyfraith a ddangosir yn y siart cylch ac roedd y rhan fwyaf ohonynt yn ymwneud â chyfraith tai, cyfraith teulu neu gyfraith cyflogaeth.

***Y Modiwl Camweinyddiad Cyfiawnder***

Mae myfyrwyr ar y modiwl hwn wedi bod yn adolygu diogelwch euogfarn o lofruddiaeth. Mae'r myfyrwyr wedi elwa o gymorth gan Banel Ymgynghorol Inside Justice, sy'n cynnwys barnwr wedi ymddeol, bargyfreithwyr, cyfreithwyr, gwyddonwyr fforensig, uwch-swyddogion yr heddlu sydd wedi ymddeol, newyddiadurwyr ac ymgyrchwyr. Mae cynllun ymchwilio'r myfyrwyr bellach wedi cael ei gymeradwyo gan y Panel Ymgynghorol ac mae'r gwaith gofalus o archwilio papurau'r achos wedi dechrau.

***Apwyntiadau Cyngor 35 Munud / Cymorthfeydd Cyfreithiol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl / Prosiect Ukraine Advice - cyfanswm o 57 achos***




Rydym wedi parhau i gynnig **apwyntiadau cyngor 30 munud** gyda chyfreithiwr gwirfoddol (wedi'i gysgodi gan fyfyriwr gwirfoddol) eleni. Mae'r apwyntiadau wedi cael eu cynnal o bell (drwy Zoom), a'u trefnu ar sail ad hoc, yn ôl y galw. Rydym wedi cynghori ar **33 achos**, gan ymdrin â'r meysydd cyfreithiol canlynol: Teulu, Cyflogaeth a Mewnfudo.

Roeddem hefyd yn ddiolchgar iawn i Bartneriaeth Ranbarthol Gorllewin Morgannwg am gyllid i gynnal cyfres o **gymorthfeydd cyfreithiol ar gyfer gofalwyr di-dâl,** y cyfarfodydd wyneb yn wyneb cyntaf rydym wedi'u cynnal gyda chleientiaid ers dechrau pandemig Covid 19. Cynhaliwyd y cymorthfeydd yn y Cwtch, Canolfan Gofalwyr Abertawe, Stryd Mansel, Abertawe, ac yng Nghanolfan San Paul, Port Talbot. Roeddem yn ddiolchgar iawn am gymorth Graham Evans, Cyfreithwyr ac i Smith Llewelyn Partnership am gynnal y cymorthfeydd hyn.

Roedd apwyntiadau cyngor 30 munud am ddim gyda chyfreithiwr gwirfoddol wedi'i gysgodi gan fyfyriwr gwirfoddol yn cael eu cynnig i gleientiaid. Roedd gennym **gyfanswm o 19 achos**, gan ymdrin â'r meysydd cyfreithiol canlynol yn bennaf: Pŵer Twrnai/Ewyllysiau, materion Galluedd Meddyliol ac Iechyd/Gofal Cymdeithasol

Yn olaf, gwirfoddolodd y Clinig i ymgymryd â **phum achos** gan **Brosiect Ukraine Advice UK** . Cafodd y rhain eu cydlynu gan gwmni'r 'cylch hudol' DLA Piper, o fis Chwefror 2022. Cafodd pob achos ei drin drwy gyfarwyddiadau ysgrifenedig ac ymatebion drwy e-bost.

## Sylwadau

*"Roedd gwirfoddoli fel myfyriwr israddedig yn y clinig cyngor cyfreithiol yn brofiad bythgofiadwy. Rwyf wedi datblygu nifer o sgiliau meddal, ac mae hefyd wedi fy ysbrydoli achos, os bydda i'n llwyddo i gymhwyso'n gyfreithiwr yn y dyfodol, hoffwn i weithio i gwmni sy'n annog ei weithwyr i ddarparu cyngor cyfreithiol am ddim i aelodau difreintiedig ein cymdeithas. Mae cyfreithwyr yn cael eu portreadu'n aml fel unigolion didostur ac mae angen i'n cenhedlaeth ni newid hynny drwy gynnig ein cymorth a chydymdeimlo â'r rhai mae angen mynediad at gyfiawnder ar frys arnyn nhw, cyfiawnder na allan nhw ei fforddio fel arall."*
Myfyriwr Gwirfoddol 2020-2022

*"Roedd y gwasanaeth a ddarparwyd yn ardderchog. Roedd y cyngor yn dda a chafodd ei roi mewn modd proffesiynol."*

*Cleient Apwyntiad a Arweiniwyd gan Fyfyriwr Ymgynghorol, 2022*

## Clinigau Diwygio'r Gyfraith

Cyflwynodd y Clinig dystiolaeth i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Bil Partneriaeth Gymdeithas a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) drafft.

Yn dilyn hynny, cynhaliodd y Clinig ddigwyddiad ar-lein ynghylch y Bil arfaethedig ac Agenda Gwaith Teg Llywodraeth Cymru ym mis Hydref 2021. Roeddem wrth ein boddau bod Hannah Blythyn AS, Dirprwy Weinidog Partneriaeth Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, yn gallu cymryd rhan yn y digwyddiad.

Rhoddodd Cyfarwyddwr y Clinig, Rich Owen, dystiolaeth i Bwyllgor Biliau Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ynghylch agweddau ar faterion mynediad at gyfiawnder mewn perthynas â'r Bil Diogelwch Gwladol ym mis Gorffennaf 2022.

## Prosiect Cyfieithu Cymraeg

Mae Myfyrwyr Ymgynghorol wedi bod yn cyfieithu Llawlyfr Pro Bono Cymdeithas y Gyfraith i'r Gymraeg, gan weithio mewn partneriaeth ag Eversheds Sutherland.

Mae hyn yn cynnwys cyfieithu nifer o ffurflenni a llythyrau sbesimen i'r Gymraeg. Drwy hyn, gobeithir y bydd gallu cleientiaid i gael mynediad at gyfiawnder drwy'r Gymraeg yn cael ei wella.

## Prosiect Datblygu Taflen Ffeithiau

Oherwydd y galw enfawr am wasanaethau'r Clinig, rydym wedi llunio taflenni ffeithiau â'r nod o ddarparu cyngor a chymorth cychwynnol i gleientiaid.

Mae'r daflen ffeithiau gyntaf, am y Llwybr Hawliadau Bach, wedi bod yn llwyddiannus iawn ac mae Myfyrwyr Ymgynghorol bellach yn datblygu taflen ffeithiau arall am Apwyntiadau Gwrandawiad Cyntaf i Ddatrys Anghydfod.

## HOPE (Helping others participate and engage)

Mae HOPE yn brosiect partneriaeth rhwng: Age Cymru, partneriaid lleol Age Cymru (megis Clinig y Gyfraith Abertawe) a phartneriaid Age Connects Cymru ledled Cymru gyfan. Mae HOPE yn darparu gwasanaeth eirioli annibynnol i bobl hŷn (50+) a gofalwyr ledled Cymru.

Bu'r Clinig yn gweithio gydag Age Cymru i recriwtio eiriolwyr annibynnol o blith Myfyrwyr Ymgynghorol a chynorthwyo i'w hyfforddi er mwyn darparu cymorth i bobl hŷn a gofalwyr lleol fel y gallant helpu i ddylanwadu ar y penderfyniadau allweddol sy'n effeithio ar eu bywydau ac osgoi mynd i sefyllfa argyfwng. Yn ogystal â chynorthwyo eu cleientiaid drwy ddarparu eiriolaeth lefel isel, bydd eiriolwyr annibynnol yn y prosiect hwn yn rhoi iddynt yr offer a'r hyder i allu eirioli drostynt eu hunain.

## Technoleg Gyfreithiol

Ar ôl proses dendro gystadleuol, sicrhaodd y Clinig gyllid, yn ogystal â chymorth, gan Gymorth Cymunedol Cydlynol Cymdeithas y Plant er mwyn datblygu ap cyfeirio rhwng-asiantaethau cyngor a gaiff ei lansio yn 2022. Bydd yr ap yn gwella'r broses gyfeirio rhwng asiantaethau, gan wella profiad y cleient.

Cyfrannodd y Clinig at ymchwil dan arweiniad Awdurdod Rheoleiddio'r Cyfreithwyr (SRA) mewn prosiect a ariannwyd gan Gronfa Arloeswyr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU o'r enw *Using Legal Tech to Address Inequalities in Access to Justice*. Y partneriaid ymchwil eraill oedd Labordy Arloesi Cyfreithiol Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Prifysgol Gorllewin Lloegr ac Awdurdod Cyfunol Gorllewin Lloegr.

Fel rhan o'r ymchwil hon, cynhaliwyd grŵp ffocws ar-lein gyda'r sector cyngor yng Nghymru o'r enw **Gweithdy gwasanaethau cyngor a thechnoleg - Cymru** ar 8 Rhagfyr 2021.

Siaradodd Rich Owen, Liz Withers o'r SRA a Stefano Barazza o Labordy Arloesi Cymru mewn digwyddiad ar-lein am y prosiect a drefnwyd gan Legal News ar 3 Tachwedd 2021 yn ystod Wythnos Pro Bono.

## Bwrdd Myfyrwyr

Mae Bwrdd Myfyrwyr y Clinig wedi bod ar waith ers dwy flynedd bellach. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Myfyrwyr gyfrannu syniadau'n uniongyrchol i staff y Clinig ym mhob agwedd ar ddatblygiad y Clinig a'i flaenoriaethau strategol.

Cyfarfu'r Bwrdd bedair gwaith yn ystod cyfnod yr adolygiad. Yn y cyfarfod cyntaf nodwyd ffyrdd y gellid cynorthwyo cleientiaid mewn trallod ymhellach. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cleientiaid a oedd yn wynebu trallod difrifol wrth i'r wlad adfer o bandemig Covid 19. Gan ystyried y cynnydd hwn, cafwyd awgrymiadau gan aelodau'r Bwrdd Myfyrwyr mewn perthynas â ffurflen cyfrinachedd a chydsyniad y Clinig er mwyn rhoi cyfle i'r Myfyrwyr Ymgynghorol ddatgelu meysydd a allai beri ymateb poenus yn y cleient.

Gwnaeth aelodau'r Bwrdd Myfyrwyr sylwadau hefyd ynghylch y cynigion i newid rhaglen hyfforddiant a sefydlu'r Myfyrwyr Ymgynghorol drwy gynnwys ffug-gyfweliad â chleient.

Hwy oedd y Myfyrwyr Ymgynghorol cyntaf hefyd i fod yn rhan o'r Prosiect Ukraine Advice ac roeddent wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnwyd gan y Clinical Legal Education Organisation. Roedd hyn yn eu galluogi i rannu profiadau â myfyrwyr sy'n gwirfoddoli i glinigau'r gyfraith mewn prifysgolion eraill.

## Digwyddiadau

Cynhaliwyd sesiwn 'Sgwrs a Holi ac Ateb am Gymorth Cyfreithiol', a oedd yn agored i bawb, gan un o'n cyfreithwyr gwirfoddol, Georgina Arthure o Peter Lynn and Partners, Cyfreithwyr ar 16 Chwefror 2022.

Unwaith eto, cymerodd ein Myfyrwyr Ymgynghorol ran yn **Niwrnod Byd-eang o Weithredu dros Gyfiawnder Hinsawdd Clinigau'r Gyfraith** ar 17 Tachwedd 2021. Defnydd o blastigion oedd y thema, sef y syniad a gyflwynwyd gan Glinig y Gyfraith Abertawe yng nghynhadledd y Global Alliance for Justice Education ym mis Mehefin 2021. Bu Myfyrwyr Ymgynghorol yn rheoli cyfrif Twitter y Clinig am ddiwrnod.

Cynhaliodd y Clinig weithdy ar-lein o'r enw **Darparu Addysg Uwch Gynaliadwy: Y Cyd-destun Cymreig**, a noddwyd gan Gymdeithas y Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol, ar 26 Ionawr 2022. Agorodd y digwyddiad gyda chyflwyniad gan yr Athro Carolyn Hayles, Athro Dylunio Amgylcheddol a Chynaliadwy ar gyfer yr Amgylchedd Adeiledig ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, a roddodd drosolwg o ganllawiau'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg er Datblygu Cynaliadwy. Wedyn cafwyd astudiaeth achos gan Pavla Boulton, Cymrawd Addysgu Cenedlaethol o Gyfadran y Gwyddorau Bywyd ac Addysg, Prifysgol De Cymru. Yna cyflwynwyd astudiaeth achos gan Ben Rawlence, Prif Weithredwr Black Mountains College, a wnaeth ail-ddychmygu addysg yn ystod cyfnod o argyfwng ecolegol. Darparwyd yr astudiaeth achos olaf gan Rich Owen o Glinig y Gyfraith Abertawe a ystyriodd y ffyrdd y mae angen darparu gwasanaethau cyfreithiol yn wahanol, o ganlyniad i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2014.

## Sgyrsiau Gwadd

Mae aelodau o staff y Clinig wedi cael eu gwahodd i roi sgyrsiau mewn nifer o ddigwyddiadau.

Gwahoddodd LawWorks Rich Owen i fod yn aelod o drafodaeth panel o'r enw 'Holistic approaches to pro bono, focus on delivering advice in partnership with healthcare settings', yn nhrydedd gynhadledd Rhwydwaith Clinigau LawWorks a gynhaliwyd ar-lein ar 8 a 9 Gorffennaf 2021. Y siaradwyr eraill oedd Amanda Finlay CBE (Law for Life), Dr Philip Drake (Prifysgol Manceinion), yr Athro Fonesig Hazel Genn (UCL), Dan Hopewell (Bromley by Bow Centre) a Kathryn Penrithy (Making Space).

Fel rhan o Wythnos Pro Bono 2021, cafodd Rich Owen ei wahodd gan LawWorks ynghyd â'r Environmental Law Foundation ac A4ID i fod yn brif aelod panel ar gyfer trafodaeth o'r enw **Pro Bono and Environmental Justice.** Y siaradwyr eraill oedd Robert McCracken CF, Wessen Jazrawi (Hausfield), Matt Hunt (PGMBM, cwmni cyfraith amgylcheddol) ac Emma Montlake (Environmental Law Foundation).

Gwahoddodd LawWorks Rich Owen i fod yn aelod o'r panel mewn digwyddiad cyfnewid gwybodaeth o'r enw **Environmental Law Clinics** a gynhaliwyd ar 30 Mawrth 2022. Y

siaradwyr eraill oedd Brontie Ansell (Prifysgol Essex/Lawyers for Nature), Tom Brenan (Environmental Law Foundation) a Jo Smallwood (Prifysgol Sussex).

Gofynnodd LawWorks i Rich Owen fod yn aelod o'r panel mewn trafodaeth o'r enw **Access to legal services for diverse communities** fel rhan o Gynhadledd Rhwydwaith Clinigau LawWorks ar 17 Mehefin 2022. Y siaradwyr eraill oedd Abiodun Michael Olatokun (Bingham Centre for the Rule of Law); Karen Bailey (Bailey Wright & Co); a Reshma Derasari, (Prifysgol Roehampton).

Gwahoddodd y Clinical Legal Education Organisation Rich Owen i fod yn aelod o'r panel mewn trafodaeth ar-lein o'r enw **Promotion as a Clinician** ar 5 Gorffennaf 2022. Yr aelodau panel eraill oedd Linden Thomas (Prifysgol Birmingham) a Rachel Knowles (UCL).

Gofynnodd Rhwydwaith Addysg Gyfreithiol Glinigol Ewrop (ENCLE) i Rich Owen ymuno â'r panel mewn trafodaeth a gynhaliwyd ar Ddiwrnod Byd-eang Gweithredu dros Gyfiawnder Hinsawdd y Clinig (17 Tachwedd 2021). Enw'r drafodaeth oedd '**Beyond Clinic? Developing the next generation of Legal Activists'.** Y siaradwyr eraill oedd Christoph König (Humboldt-Universität, Berlin); Bianca Sukrow (Clinig y Gyfraith Ysgol y Gyfraith Bucerius, Hamburg); Carlo Caprioglio (Prifysgol Roma Tre); a Veronika Tomoszková (Prifysgol Palacky, Olomouc).

## Rhwydweithiau

Mae aelodau staff y Clinig yn cymryd rhan mewn nifer o rwydweithiau.

Parhaodd Rich Owen yn ei rôl fel Cadeirydd - a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ond sy'n annibynnol - Grŵp Llywio Rhwydwaith Cyngor Rhanbarthol Abertawe Castell-nedd Port Talbot, sy'n meithrin gweithio mewn partneriaeth ar draws y sector cyngor yn yr ardaloedd awdurdod lleol hyn. Cynhaliodd y Clinig nifer o gyfarfodydd y Grŵp Llywio a chyfarfodydd aelodau llawn y rhwydwaith.

Etholwyd Rich Owen yn Gadeirydd Pwyllgor Mynediad at Gyfiawnder Cymdeithas y Gyfraith a dechreuodd ei dymor tair blynedd ym mis Medi 2021. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd y pwyllgor, mae'r rôl yn cynnwys cwrdd â chyrff eraill yn y sector a chyfarfodydd rheolaidd gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.

## Ymchwil a Datblygu

Cyflwynodd Rich Owen bapur o'r enw **'Lawyers as Leaders: developing students' leadership skills to create a more sustainable planet'** mewn symposiwm a drefnwyd gan y Gobal Alliance for Justice Education, International Journal of Clinical Legal Education a'r Association for Canadian Clinical Legal Education yn eu cynhadledd "Turning Challenges into Opportunities: Justice Education in Times of Crises" 16 – 18 Mehefin 2021.

Cyfrannodd Rich bennod o'r enw '**Rebellious lawyering theory, sustainability and clinical legal education'** at lyfr a olygwyd gan Omar Madhloom a Hugh McFaull, *Thinking About Clinical Legal Education: Philosophical and Theoretical Perspectives* (Routledge, 2021).

Cyfrannodd Rich Owen blog fel gwestai ar blog Cymdeithas y Cymrodorion Addysgu Cenedlaethol am y digwyddiad *Workshop on Delivering Sustainable Higher Education: the Welsh Context*, sydd ar gael yma< https://ntf-association.com/report-on-workshop-on-delivering-sustainable-higher-education-the-welsh-context/>

Cyfrannodd Rich Owen erthygl at gylchlythyr mis Mehefin 2022 Cenedlaethau'r Dyfodol am waith Clinig y Gyfraith Abertawe. Mae ar gael yma: <https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2022/06/Future-Generations-Newsletter-June-2022.pdf>

Cyflwynodd Rich Owen ac Eve Haynes bapur o'r enw **'Stronger Together: how the advice sector can work together more effectively'** yn wythfed gynhadledd Rhwydwaith Addysg Gyfreithiol Glinigol Ewrop (ENCLE) yn 2022 'Solidarity: We are ALL in this together!' a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Brescia 13 – 15 Gorffennaf 2022 ac a ystyriodd faterion mewn perthynas â'r ap cyfeirio newydd. Hyd y gwyddom ni, dyma'r tro cyntaf mae aelod o staff y gwasanaethau proffesiynol wedi cyfrannu at gynhadledd ENCLE, neu at unrhyw gynhadledd ar addysgeg gyfreithiol glinigol, felly roeddem wrth ein boddau gyda chyfraniad Eve.



*Eve Haynes a Rich Owen yn cyflwyno papur yn Wythfed Gynhadledd Rhwydwaith Addysg Gyfreithiol Glinigol Ewrop ar 15 Gorffennaf 2022*

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Achubodd staff a Myfyrwyr Ymgynghorol ar nifer o gyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.

Rule of Law and Climate Change, 30 Mehefin 2021 a drefnwyd gan E3G

Trydedd Gynhadledd Rhwydwaith Clinigau LawWorks, 8 a 9 Gorffennaf 2021

Anticipatory Advice & Early Intervention, 19 Gorffennaf 2021

Clinig Haf, diwrnod hyfforddiant Cyngor ar Bopeth am gymorth budd-daliadau, 27 Gorffennaf 2021

Gweithio gyda Chymunedau - gwybodaeth am gyllid ac ymchwil a drefnwyd gan Network for Justice, 11 Tachwedd 2021

Practising Law in a Climate and Ecological Emergency: the regulatory environment, 12 Rhagfyr 2021

Symposiwm Clinigau'r Gyfraith Myfyrwyr, Clinical Legal Education Organisation, 25 Mawrth 2022

Pedwaredd Gynhadledd Rhwydwaith Clinigau LawWorks, 17 Mehefin 2022

Wythfed Gynhadledd Rhwydwaith Addysg Gyfreithiol Glinigol Ewrop, 'Solidarity: We are ALL in this together!' 13 – 15 Gorffennaf 2022.